



# Dechrau Wrth Fy Nhraed




## Cyd-destun yr ysgol

Mae fy ysgol leoliad wedi'i leoli mewn tref sydd â phoblogaeth o tua 8,700 o bobl a Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 588 disgybl rhwng 3 ac 11 oed yn mynychu'r ysgol ac maen nhw wedi eu rhannu rhwng ugain dosbarth. Yn ôl arolwg (Llywodraeth Cymru, 2019), mae dim ond 23.2% o bobl y ddinas gyfan sy'n gallu siarad Cymraeg ac mae hyn yn esbonio'r 245 o ddisgyblion yr ysgol sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg. Gweler yn y map o Gymru isod y nifer o Gymry sy'n gallu siarad yr iaith. Wrth ddarllen data 'Fy Ysgol Leol' (Llywodraeth Cymru, 2019) mae 8.4% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% o ddisgyblion. Fodd bynnag, dywed (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007, tud.20), mae cyfran gymharol uchel o ardaloedd yn nhref fy ysgol leoliad ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru felly mae llawer o rannau eraill o'r dref hon yn ddifreintiedig. Cyfanswm presenoldeb dros y flwyddyn academaidd yw 95.9% yn fy ysgol leoliad sy'n safon uchel o ystyried bod "The government expects: Schools and local authorities to: Promote good attendance and reduce absence, including persistent absence" yn y dogfen (Department of Education, 2019, tud.4).

## Cyd-destun y gymuned

Lleolwyd yr ysgol mewn tref sy'n ehangu'n gyflym gyda chefnid hanesyddol balch a oedd wedi'i ganoli ar ddiwydiannau cynhyrchu glo, dur a thunplat. Yng nghanol y dref, mae yna ffocws manwerthu gweithredol gyda siopau yn derbyn caniatâd cynllunio a hefyd gyfleuster hamdden yn y Ganolfan Hamdden gyda phwll Nofio, Canolfan Chwaraeon a Theatr (Gorseinon Town Council, 2020). Un pwynt pwysig ar wefan fy ysgol leoliad yw "Mae pob ysgol gymunedol yn dibynnu ar haelioni a chymorth busnesau ac unigolion lleol o fewn y gymuned honno", ac mae hyn yn profi bod y gymuned gyfagos yn cael effaith bwysig ar ba mor llwyddiannus y daw'r ysgol. Er enghraifft, mae'r llyfrgell leol mewn partneriaeth gyda'r ysgol ac heb hyn ni fyddai amrywiaeth helaeth o lyfrau i'r plant i ddarllen.



## Agweddau sy'n effeithio ar addysg


★ **Iaith**  
Gan ganolbwyntio ar agweddau sosio-economaidd, profwyd fod plant o deuluoedd statws sosio-economaidd isel yn llai tebygol o gael profiadau sy'n annog datblygiad sgiliau sylfaenol, "it places children at a disadvantage because they are likely to experience less stimulating home environments" (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008, tud.12). Mae hyn wedyn yn effeithio ar blant o ran dechrau'r ysgol oherwydd "Poorer children have worse cognitive, social-behavioural and health outcomes" dywed Kitty Stewart yn (Stewart, 2017). Cynnigwyd fy ysgol leoliad llawer o gyfleoedd i bob plentyn fel nad oes neb yn colli allan. Mae hyn yn amrywio o deithiau a sioeau ysgol i'r defnydd o adnoddau yn yr ystafell ddosbarth. Gwelais hyn ar ddiwrnod pontio lle ymwelon ni â'r neuadd leol i wyllo pantomeim, roedd yn ffordd wych i'r ysgol gysylltu â'r gymuned a'r plant i'w mwynhau'r profiad yn eu hardal leol. Cytunir Froebel gyda hyn yn (Tovey, 2016, tud.3) gan ddweud dylai ysgolion fod mewn cysylltiad agos â'r gymuned ehangach o bobl a lleoedd.

### ★ Sosio-Economaidd

Gan ganolbwyntio ar agweddau sosio-economaidd, profwyd fod plant o deuluoedd statws sosio-economaidd isel yn llai tebygol o gael profiadau sy'n annog datblygiad sgiliau sylfaenol, "it places children at a disadvantage because they are likely to experience less stimulating home environments" (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008, tud.12). Mae hyn wedyn yn effeithio ar blant o ran dechrau'r ysgol oherwydd "Poorer children have worse cognitive, social-behavioural and health outcomes" dywed Kitty Stewart yn (Stewart, 2017). Cynnigwyd fy ysgol leoliad llawer o gyfleoedd i bob plentyn fel nad oes neb yn colli allan. Mae hyn yn amrywio o deithiau a sioeau ysgol i'r defnydd o adnoddau yn yr ystafell ddosbarth. Gwelais hyn ar ddiwrnod pontio lle ymwelon ni â'r neuadd leol i wyllo pantomeim, roedd yn ffordd wych i'r ysgol gysylltu â'r gymuned a'r plant i'w mwynhau'r profiad yn eu hardal leol. Cytunir Froebel gyda hyn yn (Tovey, 2016, tud.3) gan ddweud dylai ysgolion fod mewn cysylltiad agos â'r gymuned ehangach o bobl a lleoedd.

### ★ Diwylliant a Ffydd

Ffactorau eraill sy'n effeithio ar y ffordd mae plentyn yn cymryd rhan mewn addysg yw'r diwylliant a'r ffydd y mae'r plentyn a'i deulu yn ei ddilyn. Dywed (Futterman, 2015) bod rhaid i athrawon adnabod eu disgyblion a'u galluoedd academaidd yn unigol er mwyn "engage students effectively in the learning process." Fel welais yn fy ysgol leoliad, mae trafod y credoau diwylliannol a'r safbwyntiau gyda teuluoedd, yn galluogi athrawon i newid ffyrdd a strategaethau ar sut i addysgu'r plentyn hwnnw'n briodol.



## Y dysgwr


Mae cyfraniadau teulu a chymuned yn meithrin partneriaethau ymhlith ysgolion ac mae'r rhain yn arwain at rannu a gwneud y mwyaf o adnoddau er mwyn helpu plant datblygu ymddygiadau iach a hyrwyddo bywydau iach. Yn (Hall, 2014, tud.34) "the community generates a school and is in turn re-generated by the school" ac mae hyn yn pwysleisio ar bwysigrwydd cynhyrchu perthynas dda gyda'r gymuned. Mae fy ysgol leoliad yn defnyddio ei cymuned er mantais iddynt gan eu bod yn gyfoethog mewn gwahanol fathau o asedau a all ychwanegu gwerth sylweddol i fusnes craidd ysgolion. Raddiwyd yr ysgol 'Da' ar gyfer 'Gweithio Mewn Partneriaeth' yn ôl adroddiad (Estyn, 2017, tud 10) gan fod ganddyn nhw "partneriaethau strategol llwyddiannus sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion." Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth o'r rhieni, cydweithio gyda'r ysgol Saesneg lleol a cysylltiadau gyda busnesau lleol.

Kia Necke 1901582

## Danciaethwr Enwog

Dywed Bronfenbrenner yn (Bronfenbrenner, 1979, tud.25) "a mesosystem comprises the interrelations of two or more settings....the relations among home, school and neighborhood" sy'n pwysleisio bod y cydgyssylltiadau rhwng y plentyn a'r gymuned cyfagos yn chwarae rôl yn bywyd y plentyn.

Dangosir yn y diagram isod (Psychol Notes HQ) y model ecolegol sy'n trefnu cyd-destunau o ddatblygiad yn bum lefel o ddylanwad allanol. Mae'r lefelau yn cael eu categorioeddio o'r lefel fwyaf agos at y plentyn i'r ehangaf. Fel y gallwn weld o'r diagram, y system Feicro yw'r amgylchedd uniongyrchol i blentyn sef ei deulu, ysgol a chymdogaeth gyfagos. Dengys y system Feso y cysylltiadau a wneir rhwng y systemau Feicro, hynny yw cydgyssylltu'r teulu, ysgol â'r gymuned.



## Sut mae fy ysgol leoliad yn ymgysylltu â theuluoedd

- ★ **System ginio ar-lein:** Mae'r athrawes ddosbarth yn golygu'r gofrestr bore wrth i'r plant casglu eu cinio er mwyn hysbysbu rhieni.
- ★ **Llyfrau darllen:** Mae'r plant yn mynd â llyfr darllen adref bob dydd er mwyn darllen gyda rhieni.
- ★ **Diwrnod i rieni:** Cyfle i rieni dod mewn i weld gwaith, darluniau, arddangosfeydd a llyfrau'r disgyblion.
- ★ **Noson rhieni:** Rhieni yn cwrdd â'r athro a deall y cynnydd y mae ei plentyn yn ei wneud: ei gryfderau a'i feysydd i'w gwella.

## Sut mae fy ysgol leoliad yn ymgysylltu â'r gymuned

- ★ **Diwrnod Mabolgampau:** Gwahodd y gymuned a phobl lleol i wyllo'r cystadleuthau ac i ymuno â'r digwyddiadau. E.e. rhedeg stondinau, gwerthu bywd neu ddal y llinell derfyn.
- ★ **Arbenigwyr:** Gwahodd gweithwyr lleol i addysgu gweithgareddau allgyrsiol megis gwersi Cerddoriaeth a Chelf.
- ★ **Proffesiynwyr:** Croesawi pobl lleol i rannu profiadau a gwybodaeth o'r ardal. E.e Diwydiant glo, effaith y Rhyfel Byd.
- ★ **Eisteddfod yr Urdd:** Disgyblion ar draws Cymru yn cystadlu yn erbyn ei gilydd a'r gymuned a theuluoedd yn dod ynghyd i gefnogi.



## Rhestr Gyfeirnod

Department of Education (2019) *School attendance: Guidance for maintained schools, academies, independent schools and local authorities*. Ar gael yn: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/818204/School\\_attendance\\_July\\_2019.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/818204/School_attendance_July_2019.pdf) (Darllenwyd: 12 Chwefror 2020)

Tovey, H. (2016) *Bringing the Froebel Approach to your Early Years Practice*. Taylor & Francis.

Futterman, F. (2015) 'Beyond the Classroom: The impact of culture on the classroom', *Miami Herald*, 29 Medi. Ar gael yn: <https://www.miamiherald.com/news/local/community/miami-dade/community-voices/article36727782.html> (Darllenwyd 12 Chwefror 2020)

Bronfenbrenner, U. (1979) *The Ecology of Human Development*. Harvard University Press.

Llywodraeth Cymru (2019) *StatsCymru*. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure> (Darllenwyd: 10 Chwefror 2020)

Llywodraeth Cymru (2019) *Fy Ysgol Leol*. Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6702212?lang=cy>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007) *Guidance For Schools*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/parent-and-parental-responsibility-guidance-for-schools-en.pdf> (Darllenwyd: 10 Chwefror 2020)

Gorseinon Town Council (2020) *About Us*. Ar gael yn: [http://www.gorseinontowncouncil.gov.uk/Gorseinon-TC/about\\_us-13269.aspx](http://www.gorseinontowncouncil.gov.uk/Gorseinon-TC/about_us-13269.aspx) (Darllenwyd: 10 Chwefror)

Estyn (2017) Estyn, *Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20Pontybrein.pdf> (Darllenwyd 5 Chwefror 2020)

<https://www.yggpontybrein.com>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) *Ystadegau ar gyfer Abertawe*. Ar gael yn: <https://www.assembly.wales/NAFW%20Documents/swansea.pdf%20-%2018042008/swansea-English.pdf> (Darllenwyd: 5 Chwefror 2020)

Hall, K. et al. (2014) *Loris Malaguzzi and the Reggio Emilia Experience*. A&C Black.

Stewart, K. (2017) 'Income directly affects children's outcomes', *The London School of Economics and Science*, 12 Gorffennaf. Ar gael yn: <http://www.lse.ac.uk/News/Latest-news-from-LSE/2017/07-July-2017/Income-directly-affects-childrens-outcomes> (Darllenwyd: 5 Chwefror 2020)

